

ARDDULLIAU THEATR CYFLWYNIAD

NOD YR ADNODD

Nod yr adnodd fydd rhoi esboniad clir i ddysgwyr am arddulliau Theatr amrywiol, sef Theatr Naturiolaid, Theatr Fynegiannol a Theatr Symbolaidd. Bydd y dysgwyr yn medru cyfeirio at yr adnodd wrth drafod posibilïadau llwyfannu a dylunio o fewn y gwersi TGAU, UG ac Uwch. Dylid cael ffocws clir ar ehangu sgiliau meddwl y dysgwyr yn yr adnodd hwn a'u hannog i arbrofi gydag arddulliau newydd wrth ystyried perfformio dramâu.

Y deunyddiau:

Bydd yr adnodd yn cynnwys tair uned wedi eu pecynnu fel un adnodd:

- Theatr Naturiolaid
- Theatr Fynegiannol
- Theatr Symbolaidd

Y prif bwrpas yw rhoi esboniad o'r arddulliau amrywiol i ddysgwyr, ond hefyd eu sbarduno a'u hannog i arbrofi eu hunain wrth iddynt wneud penderfyniadau ynghylch llwyfannu dramâu mewn theatr. Bydd yr adnodd yn rhoi arweiniad clir i ddysgwyr ynghylch y tri arddull. Bydd pob uned yn cynnwys y canlynol:

- Nodiadau i'r dysgwyr
- Clipiau ffilm o gyfweiliadau gydag actorion, cyfarwyddwyr, technegwyr a dramodwyr
- Clipiau ffilm o ddramâu
- Darluniau a chynlluniau yn dangos esiamplau o lwyfannu drama

Bwriedir i'r adnodd fod yn gymorth i ddysgwyr wrth iddynt ddygymod â gwahanol unedau Cyrsiau TGAU a Chyrsiau Safon Uwch Drama.

Yn y fanyleb ar gyfer TGAU Drama mae'n ofynnol i ddysgwyr yn Uned 1 ddyfeisio darn o theatr mewn ymateb i ysgogiad arbennig, gan ddefnyddio naill ai technegau ymarferwr theatr dylanwadol neu nodweddion genre drama. Bydd deall y gwahaniaeth rhwng gwahanol arddulliau, gydag enghreifftiau o wahanol ddramodwyr, yn gymorth gyda'r gofyniad hwn. Yn yr un modd, rhaid i'r testun a ddewisir ar gyfer Uned 2 gyferbynnu â'r testun a ddewisir ar gyfer Uned 3. Unwaith eto, bydd yr adnodd hwn yn eu dysgu am y gwahaniaeth rhwng gwahanol arddulliau theatr, ac yn eu helpu i weld y cyferbyniad rhwng dramâu a'i gilydd

O safbwynt Safon Uwch Drama, ar gyfer Uned 1 bydd dysgwyr yn cymryd rhan yn y gwaith o greu, datblygu a pherfformio darn o theatr yn seiliedig ar ail ddehongliad o ddarn o destun arbennig, a rhaid i'r darn hwn gael ei ddatblygu gan ddefnyddio technegau oddulliau gweithio naill ai ymarferwr theatr dylanwadol neugwmni theatr cydnabyddedig. Bydd adnodd sy'n manylu ar ygwahaniaeth rhwng arddulliau gwahanol yn gymorth yma eto.

Ar gyfer Uned 3, Safon Uwch Drama bydd dysgwyr eto yn cymryd rhan yn y gwaith o greu, datblygu a pherfformio dau ddarn o theatr yn seiliedig ar ysgogiad arbennig, a rhaid i'r darnau fod mewn arddulliau gwahanol. Yma eto bydd yr adnodd hwn yn eu cynorthwyo i adnabod y gwahaniaeth rhwng gwahanol arddulliau.

